

Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS  
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth  
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1107  
Ein cyf/Our ref DET/03737/20

Janet Finch-Saunders MS  
Cadeirydd  
Pwyllgor Deisebau

22 Rhagfyr 2020

Annwyl Janet

Diolch am eich gohebiaeth ar 16 Rhagfyr ynghylch deiseb P-05-1107 yn gofyn i Lywodraeth Cymru ganiatáu ailddechrau canu ac adloniant yn yr awyr agored.

Yn dilyn cyhoeddiad y Prif Weinidog ar 19 Rhagfyr, mae Cymru wedi symud i rybudd lefel pedwar yn ein Cynllun Rheoli cyhoeddedig, sef y lefel uchaf o gyfyngiadau. Ar y lefel hon mae'n ofynnol i ni i gyd aros gartref i leihau'r risg o drosglwyddo a peidio â gwneud unrhyw deithiau diangen.

Yn sgil y cyd-destun ehangach o ran iechyd y cyhoedd, mae ein rhaglen digwyddiadau prawf wedi'i gohirio. Yn ein Cynllun Rheoli, ein disgwyliad yw na fydd digwyddiadau prawf yn ailddechrau nes ein bod ar lefel dau ac na fydd digwyddiadau'n fwy cyffredinol, gan gynnwys digwyddiadau lle y byddai mwy o bobl yn bresennol, yn ailddechrau nes ein bod ar lefel un yn y cynllun. Bydd y Gronfa Adfer Ddiwylliannol gwerth £63m yn cefnogi'r sector ac yn sicrhau ei gynaliadwyedd hirdymor yn y cyfamser.

Yn gywir,

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**  
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth  
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru)  
[Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales](mailto:Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.